Y tymor hwn cawsom y cyfle i groesawu Mrs E.A.Evans, o Lanbedr Pont Steffan a ddaeth atom i gymryd gofal dosbarth y plant lleiaf. Penodwyd Mr D.Rhys Huws yn brifathro Ysgol Gynradd Myfenydd ac y mae eisoes wedi cychwyn ar ei waith yno. Cymerwyd ei le yma gan Mr I.E.Jones o Ysbyty Ystwyth. Wrth groesawu'r athro newydd dymunwn ddiolch i Mr Huws am ei wasanaeth i'r Ysgol yn ystod y cyfnod y bu ym Mhenrhyn-coch a dymunwn y gorau posibl iddo yn ei faes newydd. Y mae Mrs P.M.Evans, Rhandir-mwyn, Cae Mawr, newydd ddechrau fel gofalwraig hanner dydd ac estynnwn groeso cynnes iawn iddi hithau hefyd.

Y mae'r tîm pêl-droed wedi bod yn eithaf prysur yn ystod yr wythnosau diwethaf ac erbyn hyn mae'r merched hŷn wedi uno â merched o ysgol gynradd y Borth i ffurfio tîm hoci sy'n dwyn yr enw Gwenoliaid. Yn eu gêm gyntaf buont yn ffodus o ennill o dair gôl i un.

Y nos Iau gyntaf yn Chwefror daeth henoed yr ardal, ar wahoddiad plant Adran Urdd yr Ysgol, i de a chyngerdd yn neuadd yr ysgol. Croesawyd hwy'n gynnes gan Mr R.T.Evans, y Prifathro. Wedi'r te cafwyd cyngerdd o safon gan Mrs Lona Jones, Miss Avril Evans, Mr Ceris Gruffydd a Mr Glyn Jones o Aberystwyth. Ar ran pawb cafwyd gair o ddiolch gan y Parch E.J. Williams, Miss Sali Jenkins a Mr E. G.Delves.